


CYNLLUN NEWID LLWYBR BYSIAU PENWALLIS – Cynlluniau

LLE: Penwallis



Y gwelliannau arfaethedig i Safle 1:



- Cael gwared ar yr ardal laswellt bresennol a gosod arwyneb tarmac yn ei lle
- Adeiladu croesfan heb ei rheoli i gerddwyr
- Gweithredu gorchymyn stryd unffordd i ganiatáu traffig unffordd yn unig
- Gweithredu gorchymyn parcio llinell felen ddwbl i atal parcio ar y stryd
- Adeiladu ynys draffig goncrit i wahanu manau parcio'r trigolion oddi wrth y traffig

Manteision:

- Gall yr holl draffig cael mynediad o hyd
- Gwella cysylltedd o fewn yr ystad

Anfanteision:

- Gellir ei ddefnyddio fel llwybr byr



Y gwelliannau arfaethedig i Safle 3 – Opsiwn 1:



- Cael gwared ar y bolard presennol a chaniatáu traffig unffordd
- Ehangu'r ffordd bresennol

Manteision:

- Gall yr holl draffig fynd trwy'r rhan hon o'r ffordd
- Gwella cysylltedd o fewn yr ystad

Anfanteision:

- Gellir ei ddefnyddio fel llwybr byr



Y gwelliannau arfaethedig i Safle 3 – Opsiwn 2:

- Cael gwared ar y bolard presennol a'i droi i mewn i gât fysiau
- Ehangu'r ffordd bresennol
- Gosod gât rwystro i reoli mynediad

Manteision:

- Dim ond cerbydau awdurdodedig all gael mynediad
- Atal traffig rhag defnyddio'r llwybr bysiau fel llwybr byr

Anfanteision:

- Mae'n rhaid i gerbydau anawdurdodedig droi rownd yn y lleoliad hwn
- Ni all unrhyw gerbydau basio drwodd os byddant yn torri lawr yn annisgwyl



Cludiant CSP
Tîm Strategaeth



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government